

## PLUEN YN EIN HET

**"Thanks again  
- you're  
performing a  
very valuable  
service in  
collating all  
this  
information".**

Alex Turner (Uned  
Rhwydwaith Newid yr  
Hinsawdd) CCGC,  
Bangor ar ôl derbyn  
data eira Les Larsen  
(Bwletin 36) trwy Llên  
Natur



Crëyr bach a'i wddf yn cosi, Aberogwen, Bangor, gan Dewi Edwards

### Blwyddyn od ar y naw

Drewdod! Blwyddyn y "Big Stink" oedd 1858. Roedd hi'n haf crasboeth, ac fe gododd ddrewdod afiach o system ddŵr tanddaearol Llundain gan dreiddio i'r tai ac i'r Ty Cyffredin. Dyma'r cyfnod pan oedd toiledau flush yn dechrau disodli'r carthbyllau traddodiadol ond cyn i system garthffosiaeth addas gael ei sefydlu ar eu cyfer. Roedd y drewdod cynddrwg, bu'n rhaid dad-halogi llenni'r Senedd-dy â Chlorad o Galch. Ond roedd 1858 yn flwyddyn od ar y naw am resymau eraill hefyd. Tra roedd Greenwich yn chwysu mewn tymheredd o 30.5°C ar y 16<sup>eg</sup> Mehefin bu gweddill Prydain ynghanol cyfnod o stormydd a therfysg eithriadol. "Taflwyd y mellt yn hynod" meddai'r ffermwr Edward Evans, o ogledd Penfro, yn ei ddyddiadur; "rhuent tra'n marchog yr awel". Lladdwyd ceffyl gwerthfawr gan fellten ar Fynydd Illtyd, Aberhonddu a thra'n mwynhau ei frecwast un bore trawyd Hugh Thomas, Waunfawr gan fellten, a bu farw yn y fan. Chwyddodd yr afon Leri yn Nhalybont, Ceredigion, gan ysgubo ffatri wlan y Bont Goch ymaith yn llwyr, ynghyd a dwy o'i phontydd. Yn Llanerfyl roedd hi'n "dymestl ddychrynlyd" a lladdwyd un anner [heffer] a tharw gwerthfawr "gan yr hylif trydanawl". Dyma'r orau eto: Dyfynnaf o adroddiad darlennydd y Times ar y 5 Mehefin 1858: "*at about 8 o'clock I was passing through North Street, Mile End when a piece of ice measuring 2 inches in length fell in the road after a vivid flash of lightning*". Cafwyd cenllysg efo terfysg y diwrnod wedyn hefyd yn Y Bala yn ôl y North Wales Chronicle ac yn Llanberis disgynodd "y gwlaw yn bistylloedd mawrion ar hyd ochrau a llethrau y mynyddoedd, nes y dymchwelwyd miloedd lawer o dynelli o bridd a cherryg i lawr y llethrau yn y lle a elwir Gro Coch, yn domenydd mawrion". Bu son wedi hyn am wraig o Lanrwst yr honnwyd iddi hi, ei mul a'i throl gael eu claddu gan un o'r tirlithriadau. Nid nepell i fwrdd "disgynai genllysg yn dalpiâu, a thabyrddent yn drystfawr ar bob adeilad". I goronni'r cyfan – a dirgelwch i mi yw hyn – oedd yr adroddiadau o Inverness bell o waddod o natur hufen tew tebyg i swlffwr ar hyd y lonydd ac ar y glaswelltydd, hyd at ddyfnder o hanner modfedd. Mae tywydd terfysglyd yn cael ei gysylltu ag arogl swlffwr yn aml, ond ar ba sail gwyddonol nis gwn. Bum yn holi'r gwybodusion yn ofer am esboniadau posibl. Cynigion bobl?

Addasiad o ysgrif a gyhoeddwyd gyntaf yn Y Cymro yng ngholofn Llên Natur

Cwmwl "rhawnog" (fel rhawn ceffyl) yn ol y dyddiaurwr Edward Evans (uchod).

Un o gyfres wych o gymylau gan Peter Hope Jones yn Oriol Llên Natur (Adnabod y Cymylau)



## Y neidr a'i gwas bach!

Madrid.-Investigadores españoles de la Universidad de Vigo han descubierto la capacidad de las libélulas de reproducirse sin necesidad de machos.



"Mae ymchwilyr wedi darganfod bod rhaid i was neidr fod yn "macho" i genhedlu"

Llun (de): gwas neidr modrwyog newydd "ddeor", Cwm Idwal.

Allan Brandon



## Eira'r deheuon



*Tarerach, Pyrenees Orientales, 3 Jan 2011. No snow in the Tarerach area [Nadolig 2010], nearly always gorgeous sunshine but varying from warm to cold with cold wind on some days only.*

Alan Brandon

Ond ar yr 2ail Chwefror 1954 cafwyd eira yn Gibraltar (tafliad carreg bron o Morocco!). Beth felly oedd yn digwydd adref y diwrnod hwnnw?

*Wintry conditions and severe weather prevailing* TG Walker, Môn

Pobman yn wyn hefo barrug ac eira wedi rhewi yn galed. Rhai manau yn ein gwlad a thrwch o dros fodfedd o eira yn ei gorchuddio...[llythyr o Amsterdam - cefnder Albert Price yn cwyno fod yr hin yn ddirifol yn Europe]

Dyddiadur y Parch. John Richards, Llys Myfyr, Groeslon (Archifdy Gwynedd)

Tymheredd oeraf Prydain heddiw yn y Trallwng (-20C)

Woodward A. & Penn R., *The Wrong Kind of Snow* (Hodder & Stoughton)

O.N. Cafwyd eira yn y Sahara ar yr 18 Chwefror 1979! - cyfnod o eira yma hefyd.

## Cwlm eto

Yn dilyn y pwt yn y Bwletin diwethaf am cwlm mae Brenda Jones wedi dod o hyd i enghraifft arall gan yr un dyddiadurwr o Ben Llŷn a allai olygu *culm* neu fath o lo:

"24 Medi 1897, Bum yn Ffair Pwllheli. Nol **culwm** i Felin Bodwrdda". Oes gan rywun gof personol o lo cwlm neu ddefnydd o'r gair?

*The imperfect anthracite of north Devon and north Cornwall in England, which is used as a pigment, is known as culm. In America, culm is used as an equivalent for waste or slack in anthracite mining* Wikipedia

## Lleud oren



Son am leud oren yn y dyddiadur yn ddiweddar, tynnais y llun yma ar y ffordd i Lanrwst, bore Gwener, Ionawr 21.

Alun Williams

Dyma'r cofnod y cyfeiriodd Alun ato:

Bore heulog tawel ond oer iawn gyda barrug trwm. Lleud oren lawn dros Llanddwyn eto ben bore cyn iddi "fachlud" yn fuan wedyn.

Cofnod DB

Dyma gafodd Twm Elias am leud coch ar gyfer ei gyfrol "Am y Tywydd":

llid y gwynt yw'r lleud goch  
y lleud yn codi'n goch - sychder mawr a gwres  
y lleud o hyd yn goch cyn storm  
lleud goch - gwynt a glaw

Cewch benderfynu eich hunain o ddyddiadaur Llên Natur pa un - os yr un! - sydd agosaf ati.

Cleirwy 15 Chwefror 1870 *He was ill with cold from this vicious poisonous east wind..the red round moon hanging over Clifford Hill. Owls hooting in the dusk across the Dingles*

[Dyddiadur Francis Kilvert

## Beth yw hwn?



Tocyn llyfr gwerth £10 i'r cyntaf i enwi'r aderyn yn y llun, i'w dderbyn gyda'ch cyfeiriad post cyn y 1af Ebrill trwy'r ffurflen Cysylltu ar wefan Llên Natur neu drwy'r ddolen hon:

[www.llennatur.com/gwyn/cysylltuQuask.html](http://www.llennatur.com/gwyn/cysylltuQuask.html)

Na Dewi Edwards, - chewch chi ddim cystadlu, chi dynnodd llun - cofio?

A pheidiwch â meddwl y cewch chi'r ateb yn Oriol Llên Natur - mae'r llun wedi ei guddio tan ar ôl y diwrnod cau! Ffotograffwyr Llên Natur - beth am fwy o luniau pŵs i ogleisio darllenwyr y Bwletin?

*lleud llawn Sadwrn 19<sup>eg</sup> Mawrth*

## Cwningod Tsieina



Mae hi'n flwyddyn newydd y Sieiniaid ar y dyddiad yma, y 3 Chwefror 2011, a'r anifail eleni fydd y gwningen - Blwyddyn y Gwningen fydd 2011

Tom Jones

Ydy cwningod Cheina yr un rhai a chwningod fam'ma

tybed? Creadur cynhenid i dde America yd'r gwningen yn wreiddiol. Newidiodd Cheina i'r Calendr Gregoraidd ar 12 Chwefror 1912 - dilyn yr Hen Galendr mae Tom - yr hen jeni iddo fo! (Gol.).

Blwyddyn yr Ysgyfarnog ydi hi medd eraill. Os felly, ai yr un sgwarnog ag sydd gennym ni yng Nghymru yw honno?

Alun Williams gymerodd y ddau lun. Ysgyfarnog yn ceisio cuddio yn y rhedyn ar un o fryniau Dyffryn Clwyd, Ebrill 10fed 2010.



## Mwy am hel moresg

Cewch hanesion am foresg a'r diwydiant gwneud matiau ym Môn ym Mwletinau 8, 9, 27, 32. Ond dyma gofnod a ddaeth i'r fei yn nyddiadur John Owen Jones, Crowrach, Bwlchtocyn yn ddiweddar (diolch i deulu RG Williams):

6 Medi 1922: Hel moresg yn tir Cim - 30 swp i gyd. Cario nhw adra efo'r ferfa. Poeth braidd a chlos.

Oedd yna ddiwydiant plethu moresg tybed ym Mhen Llŷn hefyd. Ym Mwletin 9 cawn hanes gan Steffan ab Owain am "tinpan foresg" (clustog glinio i weddio) wedi ei chodi o lyfrau cownt plwyf Ynyscynhaearn, Prenteg. Gofynnodd Steffan tybed a wnaethpwyd hwy yn lleol. Ydi cofnod o Fwlchtocyn yn ddigon lleol i ti Steffan?

Dyna 'sa dda - dod o hyd i dinpan foresg, neu ddarn ohonno, yng nghefn rhyw gwpwrdd festri llychlyd (Gol.)

## Moel-y-faen (Sir Ddinbych) ar fap OS 1838.

Unrhyw sylwadau ar y treigladd, gan fod maen yn wrywaidd, er bod GPC yn nodi y gallai fod yn fenywaidd yn ogystal. Wn i ddim oes wnelo 'ar vein' Llyd â hyn, h.y. treiglo enw lluosog wedi'r fannod. Guto Rhys

## Gwenoliaid y glennydd 1976

Sand martin colony in boulder clay at top of Rhwyddfôr Bwlch...- 44 holes counted [yn chwarel Bwlch Llyn Bach\* oedd hwn].

Llyfr Maes DB

Welish i erod rhai wedyn (DB)



## Creaduriaid di-liw

(Lluniau Doreen Hamilton, Eifion Griffiths, Steve Roddick a Tom Jones)

Draenog melyn, mwyalchen pen gwyn, aderyn to a barcud heb eu lliw brown arferol - dim ond rhai o'r myrdd o enghreifftiau o greaduriaid gwan eu lliw y mae pobl wedi tynnu sylw atynt. Mae nhw'n cynnig cyfle arbennig i roi damcaniaeth Darwin o "roesiad y cymhwysaf" ar brawf. Am faint mae'r creaduriaid anarferol (ac anghymwys?) hyn yn goroesi?

## Y Proffwyd Tywydd - Rhagfyr oer 2010

December 2010 was the coldest December here since 1890, and in Northern Ireland since the invention of the thermometer in the 17th century. Because January & February at the start of 2010 were also very cold, the whole year 2010 turns out to be the coldest since 1986. But this was not so worldwide, as 2010 has turned out to be 2nd warmest globally. Why this seeming anomaly? World-wide 2010 points to a continuation of global warming, yet here in Britain some people don't believe it exists, especially after two cold winters in a row.

So what's happened? There's been a cold pool of air across Northern Europe and into Russia for some 18 months or so, with record-breaking high pressure over Greenland & Iceland and low pressure over the Gibraltar area. This has led to a run of N, NE and E winds across Britain, feeding in exceptionally cold air from Scandinavia during the winter. (Ironically the winds turned SW during the summer, making the summer cool and wet...the same reversal of airflow led to the extreme heat in Russia..but come November the winds turned NE again). So, despite continuing global warming, we will still experience severe winters if the air comes from Scandinavia, and it seems we get really severe winters about every 30 years or so. Interestingly, some meteorologists now believe the winter of 2009-10 would have been even colder if not for the "background effect" of global warming superimposed on the climate (the evidence for this is that the North Atlantic Oscillation Index...which is a measure of the pressure gradient between the Azores High and the Iceland Low based on pressure observations at Gibraltar & SW Iceland...was the highest on record during winter 2009-10, even higher than during winter 1962-63...so theoretically, winter 2009-10 should have been colder than 1962-63 )

Huw Holland Jones

## Adroddiad o'r Ynys Las

Recent data shows that the ice melted at a record rate in 2010...Both November and December were unusually mild in this part of Greenland [y gogledd orllewin]..On a number of days throughout the Christmas period, it was colder in parts of the UK than it was here

Stephen Pax Leonard, The Observer 6 Chwefror 2011

## 'Cicaion Jonah'...eto

Ym Mwletin 28 cafwyd trafodaeth ar cicaion, yr enw a roes William Morgan ar *gourd*. Cafwyd ystyr arall ar y gair oddiwrth Steffan ab Owain o Y Genedl Gymreig, Awst 13eg, 1890, o dan y pennawd "Arddangosfa Arddwrol Dyffryn Nantlle.....Nodir i Miss Parry, Fort Tavern, Llanllyfni ddod yn gyntaf yn y blodau Begonia (cicaion Jonah)".

## Patrymau tywydd

Mae cynifer o gofnodion yn NYDDIADUR Llên Natur erbyn (38,000), mae'n bosibl gweld patrymau tywydd yn cael eu hamlygu ar ddyddiau arbennig. Dyma rai ym mis Ionawr a Chwefror:

### 27 Ion 1776: Oerni iasol yn ne Lloegr (potiau siambar yn rhewi dan y gwelyau!):

Horsham, Sussex : *It grows colder and colder and verifies the old saw - as the day lengthens, the cold strengthens. This indeed is the coldest day I have ever known since the hard frost of 1739-40; everything freezes?* John Baker Selborne : *much snow... in the evening the frost became very intense...rime on the trees and on the tube of the glass, the quicksilver sank exactly to zero (-18C) ...during these four nights the cold was so penetrating that it occasioned ice in warm chambers and under beds*

Woodward A. & Penn R. , The Wrong Kind of Snow (Hodder & Stoughton)

### 5 Chwe 1940 Meirioli a "thywydd grifft" ym Môn ond yn dal i "dorri eira" yn Sir Ddinbych

Llangristiolus, Môn: Daeth yn well tywydd yr wythnos hon - yn fwy mild ond yn wlyb. "Tywydd grifft" medd yr hen bobl - gwlyb ond 'mild' iawn.

Dyddiadur Owen Thomas Griffiths, drwy garedigrwydd Mair Griffiths

Llansilin, Sir Dinbych: --..codi defaid i dop Cwmcoslwyn a thop ffridd fawr. Tori Eira wrth yr helm. Rhwymo 4 o loi yn Cor pren.

Dyddiadur Hugh Jones Blaencwm. Llansilin, Sir Dinbych.

### 2 Chwefror 1791: Llanw dinistriol yn Llundain a drycin yn Llangollen

Selborne: *prodigious high tide in London and in it's [sic.] environs! It did much damage in various parts*

Dyddiadur Gilbert White

Llangollen: *Such a night of Tempests and Hail! Every pane of Glass in our Casements shook as if Agitated by an Earthquake. Rose at Eight. Bright sky. Keen piercing wind. Mountains and Valley covered with a thin surface of snow...*

Year with the Ladies of Llangollen Gol Elizabeth Mavor

### 30 Ion 1945: Diwrnod o ddadmar o Rydychen i Lansilyn Oxford, Indescribable mixture of ice and slush JBR Tolkien

Woodward A. & Penn R. , The Wrong Kind of Snow (Hodder & Stoughton)

### Llansilin, sir Ddinbych; Diwrnod meirioli. Clirio Eira yn ddol.

Dyddiadur Hugh Jones.Cwm Canol, Llansillyn, Sir Dinbych.

### 6 Chwe 2008: Haul o'r diwedd yn Waunfawr, glöyn byw yn Niwbwrch a chrwban fôr marw yn Nyfnaint Waunfawr; haul braf am y tro cyntaf ers wythnosau?yr ysgaw yn deilio ddod, blagur dail ar lawer o goed erail

gorsaf dywydd DB

Niwbwrch; Mi welodd Gwenllian a fi ddau löyn byw tra'n cerdded yn twyni/coed Niwbwrch ddod. Un yn SH411633 fethon ni ei adnabod ac un Peacock yn SH416643.

ebost Wil Williams

Porthmadog, Gwynedd: *Loggerhead, DEAD...1/14 dros Brydain 29 12 07 - 9 2 08...The turtle strandings started in Scotland in late December, when a dead juvenile loggerhead washed up on the shores of Islay. Since then, another 10 turtles have stranded on beaches in Gwynedd and Anglesey in Wales, Argyll in Scotland, Clare, Cork and Wexford in the Republic of Ireland, and in England, including two live loggerhead turtles, one that washed up at Bude, Cornwall on January 26th and another that washed up at Putsborough Beach, North Devon last Saturday, 2nd February.*

Datganiad i'r Wasg, Marine Cons. Society

## Plymiwr oddi fry...heliwr o fri



Llun: Dewi Edwards.

Tynnwyd y llun ar yr 31<sup>ain</sup> Ionawr 2011 ar y twyni tywod yn Ninas Dinlle. Meddai Sion Roberts "Llun gwych o'r hebog, Dewi! Ar y 31<sup>ain</sup> Ionawr eleni ar y twyni tywod yn Ninas Dinlle, clywais yr

Ehedydd...! Roedd wrthben, ac yn cael ei erlid gan hebog, ond roedd yr hebog yn fach iawn, yn debyg i wennol ddu. 'Ro'n i am ofyn os mai 'hobby' a welais - wrth i mi chwilio am yr enw Cymraeg i hobby gwelais mai Hebog yr Ehedydd ydoedd". Yn ôl Dewi, mae'n debyg na Cudull Bach (Merlin) oedd yn hela'r Ehedydd. Mae Hebog yr Ehedydd wedi ymfudo i Affrica amser yma o'r flwyddyn a fydd ddim yn ôl tan mis Mai.

## Golfan...ond pa fynydd?



Golfan y Mynydd ar goeden yn Martin Mere, Ionawr 28, 2011 Eifion Griffiths 'Ddealltais i 'rioed pam yr enwyd yr aderyn hwn - y tree sparrow yn Saesneg - yn golfan y mynydd. Ia, dylanwad yr enw gwyddonol *Passer montanus* wrth gwrs - ond pam *montanus* (Gol.)

## Pibonwy ar ei ben i lawr



*I have become puzzled with a mysterious ice feature I've discovered in the garden, see photo [chwith]. There is nothing that may have dripped into the animal drinking tub. There was no dog attached with its tongue stuck to the ice. The feature has apparently grown in the ice and has defied gravity. When I broke it off, I observed the ice to*

*be full of bubbles. Could it be caused by gases given off from the grass that has flopped into the tub. Any ideas would be most welcome.*

Steve Roddick, Môn

## Gair o ddiolch...

i Parc Cenedlaethol Eryri drwy gynllun Bwrlwm Eryri' am eu nawdd nid ansylweddol i'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer Cynhadledd Enwau Lleoedd Llên Natur a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2010. A diolch yn arbennig i Naomi Jones am ei hwyluso.

...ac o ymddiheuriad: yn y Bwletin ddiwethaf, ymddiheurwn am fethu a chydabod Gabriele Quéré o Lydaw fel ffotograffydd y gath ffyrnig.